

wavehill

Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

wavehill.com

Gwerthusiad Rhaglen Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF)?

Dysgwyr 2023/24

Wavehill: Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd

Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: St Nicholas House, 31-34 High Street, Bristol, BS1 2AW
- Swyddfa Gogledd Lloegr: The Corner, 26 Mosley Street, Newcastle, NE1 1DF
- Swyddfa Llundain: 2.16 City Forum, 49 City Road, London, N4 3EY

Manylion cyswllt

Ffôn: 0330 1228658

E-bost:

wavehill@wavehill.com

Twitter: [@wavehilltweets](https://twitter.com/wavehilltweets)

Rhagor o wybodaeth

www.wavehill.com

<https://twitter.com/wavehilltweets>

© Wavehill: ymchwil gymdethasol ac economaidd.

Mae'r adroddiad hwn yn amodol ar hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil gymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

Awduron yr adroddiad

Paula Gallagher, Tomasz Jablonski, Jakob Abekhon

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn yn y lle cyntaf at paula.gallagher@wavehill.com

Dyddiad y ddogfen: Tachwedd 2025

Manylion cleient

Linsey Imms

limms@tuc.org.uk

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r lluo o unigolion a roddodd o'u hamser i helpu gyda'r gwerthusiad. Roedd pob un ohonynt yn bwysig wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn. Ni fyddai'r gwerthusiad hwn wedi bod yn bosibl heb yr holl gyfraniadau hyn.

Rhestr o'r byrfodddau

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru
WULF	Cronfa Ddysgu Undebau Cymru
TUC Cymru	Cyngres Undebau Llafur Cymru
GDPR	Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Tudalen Gynnwys

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
1.1 Dull Methodolegol	2
2. Dadansoddiad o'r Arolwg	5
2.2 Ymgysylltiad Dysgwyr.....	10
2.3 Effaith.....	21

Rhestr o dablau

Tabl 1.1:Mathau o arolygon a nifer yr ymatebion.....	3
Tabl 1.2:Cyfraddau ymateb fesul Undeb i arolwg 2024/25 a gynhaliwyd gan Wavehill.....	3
Tabl 2.1:Oed y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn ôl Undeb.....	6
Tabl 2.2:Lefel cymhwyster uchaf cyn cymryd rhan mewn hyfforddiant WULF yn ôl undeb...10	
Tabl 2.3:A yw eich agwedd at ddysgu / hyfforddi wedi newid o ganlyniad i'r gefnogaeth a gawsoch?.....	28

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 2.1:Oed y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg	6
Ffigur 2.2:Cyfnod yn y swydd yn ôl Undeb	7
Ffigur 2.3:Dadansoddiad o swyddi yn ôl cod SOC o'i gymharu â chanlyniadau arolwg yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Ebrill 2024 i Fawrth 2025	8
Ffigur 2.4:Lefel cymhwyster uchaf cyn cymryd rhan mewn hyfforddiant WULF	9
Ffigur 2.5:A gynhaliwyd yr hyfforddiant...?	11
Ffigur 2.6:Fel rhan o'r broses o wneud cais am neu gymryd rhan yn WULF, a gawsoch chi unrhyw un o'r mathau hyn o gymorth?.....	12

Ffigur 2.7:Pwy benderfynodd y byddai'r math yma o hyfforddiant o fudd i chi?	13
Ffigur 2.8:'Pwy benderfynodd y byddai'r math yma o hyfforddiant o fudd i chi?' Wedi'i groesdabio gan 'Fel rhan o'r broses o wneud cais am neu gymryd rhan yn WULF, a gawsoch chi unrhyw un o'r mathau hyn o gymorth?'	14
Ffigur 2.9:'Cyn gwneud [cwrs] gyda WULF, faint o amser sydd wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i chi ei gymryd rhan mewn rhyw fath o hyfforddiant?.....	15
Ffigur 2.10:'Cyn gwneud [cwrs] gyda WULF, faint o amser sydd wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i chi gymryd rhan mewn rhyw fath o hyfforddiant? Wedi'i drawsdbio gan: 'Ydych chi wedi bod yn rhan o gyfle dysgu/hyfforddi gydag undeb o'r blaen?	16
Ffigur 2.11:'Cyn gwneud [cwrs] gyda WULF, faint o amser sydd wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i chi gymryd rhan mewn rhyw fath o hyfforddiant? Cyfranogwyr 17 oed wedi'u croesdabio	
Ffigur 2.12:Pa fudd oeddech chi'n gobeithio ei gael o'r hyfforddiant?.....	18
Ffigur 2.13:Allwch chi gofio pa fathau o hyfforddiant rydych chi wedi'u cael drwy WULF? (aml-ymateb).....	19
Ffigur 2.14:Pa mor ddefnyddiol oedd yr hyfforddiant a gawsoch?	20
Ffigur 2.15:I ba raddau mae'r hyfforddiant a gawsoch drwy WULF wedi arwain at...?(Sgiliau meddalach, pob ymatebydd)	22
Ffigur 2.16:'I ba raddau mae'r hyfforddiant a gawsoch drwy WULF wedi arwain at...?' (Sgiliau meddalach) yn ôl 'Pwy benderfynodd y byddai'r math yma o hyfforddiant o fudd i chi?'	23
Ffigur 2.17:I ba raddau mae'r hyfforddiant a gawsoch drwy WULF wedi arwain at...?(Sgiliau cysylltiedig â gwaith, dysgwyr ar gyrsiau hirach yn unig)	24
Ffigur 2.18:Ydy'r hyfforddiant rydych chi wedi'i gael wedi gwella eich perfformiad yn y gwaith?.....	25
Ffigur 2.19: effaith ar berfformiad gwaith yn ôl undeb	26
Ffigur 2.20:At ba rai o'r canlynol (os o gwbl) y gwnaeth y newid hwnnw mewn perfformiad arwain atynt?	27
Ffigur 2.21:Y gyfran o bob carfan oedran a nododd effaith gadarnhaol ar eu hagweddau at ddysgu	28
Ffigur 2.22:A chithau wedi cwblhau'r cwrs erbyn hyn, pa mor debygol ydych chi o symud ymlaen i ddysgu pellach?	29
Dywedodd 87% o'r cyfranogwyr fod cymryd rhan yn y cwrs a ariannwyd gan WULF wedi eu hannog i barhau â dysgu pellach i ryw raddau neu i raddau helaeth, gan ddangos effeithiolrwydd y rhaglen o ran cefnogi ymgysylltiad parhaus â dysgu oedolion	29
Ffigur 2.23:I ba raddau wnaeth cymryd rhan yn y cwrs a ariennir gan WULF eich annog i symud ymlaen i ddysgu pellach?	30
Ffigur 2.24:A gawsoch chi unrhyw rai o'r mathau canlynol o gymorth drwy'r rhaglen hefyd?	31

1. Cyflwyniad

Menter a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) ac fe'i cyflwynir mewn partneriaeth â TUC Cymru ac undebau llafur. Fe'i lanswyd i ddechrau ym 1999 a'i nod yw hyrwyddo dysgu yn y gweithle a datblygu sgiliau ac fe'i cyflwynwyd dros sawl rownd gyllido.

Ar ôl cwblhau'r gwerthusiad o raglen WULF 2019 i 2022, cafodd Wavehill eu comisiynu gan Gyngres Undebau Llafur Cymru (TUC), ynghyd â Llywodraeth Cymru, i fonitro a gwerthuso'r rhaglen dan sylw yn ystod y cyfnod rhwng 2022 a 2025.

Er bod gan bob prosiect Undeb ei nodau a'i amcanion penodol ei hun, nodau cyffredinol rhaglen WULF (2022 i 2025) oedd:

- Codi sgiliau'r gweithlu a hwyluso cynnydd drwy gefnogi gweithgarwch dysgu dan arweiniad Undebau Llafur¹, mewn partneriaeth â chyflogwyr ac eraill, gan ganolbwyntio ar gynyddu lefelau sgiliau hanfodol a digidol a sgiliau cyflogadwyedd gweithlu Cymru, a hefyd cefnogi gweithwyr i symud ymlaen i ddysgu pellach ac ennill cymwysterau perthnasol
- Cefnogi'r gwaith o recriwtio a rhwydweithio Cynrychiolwyr Dysgu Undebau i gynyddu'r galw am ddysgu gan ddysgwyr anhraddodiadol, yn enwedig gweithwyr sydd â lefelau sgiliau isel a grwpiau difreintiedig yn y gweithle, gan eu helpu i oresgyn rhwystrau rhag dysgu.
- Bod yn ymatebol i anghenion newydd o ran sgiliau a chyflogadwyedd gweithwyr, gan helpu i ddiwallu anghenion sgiliau'r gweithlu nawr ac yn y dyfodol.
- Gweithio gyda chyflogwyr i helpu i ddatblygu'r gweithlu, gan gynnwys sefydlu cytundebau dysgu wedi'u cydfargeinio a darparu cyngor ar bolisiau ac arferion yn y gweithle sy'n annog cyfranogiad, gan felly gynyddu'r tebygolrwydd o gynydd, gan olygu y bydd mwy o weithwyr yn elwa o waith teg.

¹ Mae dysgu dan arweiniad undebau'n ddull rhagweithiol o ddatblygu addysg a sgiliau, sy'n cael ei sbarduno gan undebau i wella gwybodaeth, galluoedd, hyder a chyflogadwyedd eu haelodau, a'r rhai nad ydynt yn aelodau yn y gweithle. Ei nod yw mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd penodol a wynebir gan weithwyr mewn diwydiant neu broffesiwn penodol, gan deilwra cynigion addysgol i ddiwallu'r anghenion hynny. Nod dysgu dan arweiniad undebau yw gwneud addysg a darpariaeth datblygu sgiliau yn hygyrch i bob gweithiwr, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

Nid mater o gaffael sgiliau yn unig yw dysgu dan arweiniad undebau; mae hefyd yn golygu grymuso gweithwyr i chwarae rhan weithredol yn eu gyrfaedd, eu gweithleoedd a'r gymuned ehangach.

- Annog cyflogwyr i gydnabod gwerth datblygu unigolion drwy ddysgu yn y gweithle i gefnogi eu cyflogadwyedd a'u cynnydd.
- Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant o fewn dysgu oedolion drwy chwalo rhwystrau rhag dysgu a gweithio gyda chyflogwyr i ehangu mynediad at ddysgu a sgiliau yn y gweithle.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o arolwg a gynhaliwyd ymysg dysgwyr WULF a gymerodd ran yn y cam o'r rhaglen rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.

1.1 Dull Methodolegol

Mae rhaglen WULF yn cynnwys 18 o brosiectau gydag undebau llafur ledled Cymru.

Mae manylion cyswllt dysgwyr ar y rhaglen yn cael eu cofnodi drwy ffurflenni monitro cyfranogwyr. Gofynnodd Wavehill am y manylion hyn gan bob un o'r undebau llafur. Cafodd y rhain eu rhannu i ddechrau â Llywodraeth Cymru a aeth ati, yn ei thro, i drosglwyddo'r manylion cyswllt yn ddiogel i Wavehill.

Cafwyd 8,643 rhes o ddata ar gyfer dysgwyr a gymerodd ran yn y rhaglen rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Cafodd y rhain eu cyfuno a'u glanhau². Roedd rhai o'r cofnodion dysgwyr a gafwyd yn ymwneud â nifer o ddysgwyr lle na nodwyd unigolion penodol, gan olygu nad oedd modd amcangyfrif y cyfrif unigryw o ddysgwyr a gymerodd ran yn y rhaglen yn ystod y cyfnod hwn. Yn dilyn y broses lanhau, nodwyd manylion cyswllt dilys ar gyfer 7,115 o unigolion.

Dosbarthwyd arolwg dysgwyr i'r unigolion hyn drwy e-bost, fel dolen ar-lein a hyrwyddwyd gan undebau ac, ar gyfer tri undeb a oedd yn cynnwys manylion cyswllt ffôn, drwy gyswllt gan ddim ymchwil Wavehill. Cafodd 809 o ymatebion eu cwblhau. Mae hyn yn gyfradd ymateb o 11%. Roedd yr arolwg ar agor rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Mawrth 2025.

1.1.1 Yr arolwg dysgwyr

Yn dilyn adborth gan reolwyr prosiectau undebau yn dweud bod rhai o'r cyfranogwyr wedi cael trafferth gyda hyd yr arolwg mewn rowndiau gwerthuso blaenorol, lluniwyd dull lle byddai hyd yr arolwg yn wahanol pe bai'r cyfle dysgu hyd at awr o hyd neu

² Tynnwyd dysgwr oddi ar y gronfa ddata lle na ddarparwyd unrhyw wybodaeth gyswllt. Cyfunwyd dysgwyr a oedd wedi bod ar fwy nag un cwrs mewn un cofnod. Cywirwyd mân wallau teipio a phroblemau gyda bylchau.

fod y cyfranogwr yn llenwi ei arolwg ar ddyfais symudol. Dyma ddadansoddiad o'r mathau o arolygon a lenwyd a nifer yr ymatebion:

Tabl 1.1: Mathau o arolygon a nifer yr ymatebion

Math o arolwg	N	%
Safonol	438	54%
Byr	179	22%
Byr (fersiwn symudol)	196	24%
Cyfanswm	813	

1.1.2 Sampl arolwg yn ôl undeb

Dangosir nifer y cysylltiadau a ddarparwyd gan yr Undeb, nifer yr ymatebion a gafwyd, a'r gyfradd ymateb gysylltiedig yn y tabl isod. Roedd y cyfraddau ymateb uchaf gan aelodau BECTU, URTU, FDA a CWU. Roedd y cyfraddau ymateb isaf gan aelodau USDAW ac RCM.

Tabl 1.2: Cyfraddau ymateb fesul Undeb i arolwg 2024/25 a gynhaliwyd gan Wavehill.

Undeb	Cysylltiadau	Nifer yr ymatebion	Cyfradd ymateb
ASLEF	200	21	11%
BFAWU	326	35	11%
BECTU	433	136	31%
Cymunedol	633	56	9%
CWU	261	61	23%
FBU	199	11	6%
FDA	375	89	24%
GMB	451	33	7%
NAPO	107	11	10%
NEU	630	53	8%
NUJ	185	11	6%

POA	278	46	17%
PCS	295	35	12%
RCM	188	9	5%
UNISON	1380	90	7%
Unite	925	87	9%
URTU	53	15	28%
Udaw	196	10	5%
Cyfanswm	7115	809	

1.1.3 Cyfyngiadau

Er bod rhywfaint o ddata demograffig wedi'i gynnwys yn y cysylltiadau, nid oedd digon o wybodaeth i benderfynu a oedd y sampl a arolygwyd yn gynrychioliadol o'r holl ddysgwyr ar y rhaglen. Gan mai dim ond tri undeb a ddarparodd fanylion cyswllt ffôn, nid oedd y gwerthusiad yn gallu rhoi hwb effeithiol i gyfraddau ymateb undebau gydag ychydig o ymatebion. Yn dilyn newidiadau i drefniadau casglu data, bydd y rhaglen yn casglu data demograffig ehangach ar gyfer carfan Ebrill 2024 i Fawrth 2025.

2. Dadansoddiad o'r Arolwg

2.1.1 Demograffeg

Roedd yr arolwg yn casglu data demograffig er mwyn cael gwell dealltwriaeth o nodweddion cyfranogwyr y rhaglen. Fodd bynnag, heb ddata monitro cymaradwy ar gyfer pob dysgwr, nid oes modd pennu pa mor gynrychioliadol yw sampl yr arolwg.

Nododd bron i ddwy ran o dair (60%) o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn fenywod. Yn benodol, nododd 9% eu bod o gefndir ethnig heb fod yn wyn, o'i gymharu â 6.2% o boblogaeth Cymru (cyfrifiad 2021)³ sy'n dangos y gallai WULF fod yn ymgysylltu'n gyfrannol â mwy o ddysgwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Yn yr un modd, dywedodd 23% o'r cyfranogwyr fod ganddynt anabledd, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd poblogaeth Cymru o 21% (cyfrifiad 2021)⁴. Disgrifiodd chwech ar hugain y cant o'r dysgwyr a arolygwyd eu bod yn ofalwyr, sy'n fwy na dwbl canran poblogaeth Cymru a nododd eu bod yn ofalwyr yng nghyfrifiad 2021 (10.5%)⁵, ac roedd gan 36% ryw fath o gyfrifoldebau gofal plant.

Yn gyson â data o rowndiau blaenorol o'r rhaglen, mae WULF yn parhau i ddenu dysgwyr hŷn. Roedd 53% o'r dysgwyr rhwng 45 a 59 oed er bod cyfran y dysgwyr o dan 30 oed wedi dyblu ers 2023 (8% o'i gymharu â 4%).

Os yw'r ddemograffeg hon yn cynrychioli'r rhaglen ehangach, mae hyn yn dangos bod WULF yn perfformio'n dda yn erbyn nod y rhaglen o 'gynyddu'r galw am ddysgu gan ddysgwyr anhraddodiadol', yn enwedig ymysg y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu a dysgwyr hŷn. Mae ymchwil gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn awgrymu bod tueddiad i gyfranogiad mewn dysgu oedolion ostwng o 4% am bob blwyddyn ychwanegol o oedran⁶.

³ <https://www.llyw.cymru/grwp-ethnig-hunaniaeth-genedlaethol-iaith-chrefydd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html>

⁴


<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/disabilityenglandandwales/census2021>

⁵

<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/unpaidcareenglandandwales/census2021>

⁶ Nermond et al (2024) Adult Participation in Learning Survey 2024, Y Sefydliad Dysgu a Gwaith.

Ffigur 2.1: Oed y cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg



Cwmpas: N=694, ac eithrio *Mae'n well gen i beidio â dweud*

O'u dadansoddi yn ôl Undeb, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr URTU a POA yn 55 oed neu hŷn (50% a 44% yn y drefn honno).

Tabl 2.1: Oed y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn ôl Undeb⁷


Undeb	Dan 30 oed	30 i 54	55 oed neu hŷn
URTU (N=10)	0%	50%	50%
POA (N=36)	6%	50%	44%
NAPO (N=10)	0%	60%	40%
ASLEF (N=20)	0%	65%	35%
UNISON (N=77)	5%	62%	32%
NEU (N=47)	4%	64%	32%
Community (n=46)	2%	67%	30%

⁷ Rydym wedi hepgor Undebau lle cofnodwyd llai na 10 ymateb

GMB (N=28)	4%	68%	29%
CWU (N=53)	11%	60%	28%
Unite (N=78)	3%	73%	24%
PCS (N=30)	3%	73%	23%
BECTU (N=124)	19%	57%	23%
FDA (N=73)	8%	70%	22%
BFAWU (N=31)	16%	68%	16%


Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (82%) yn gyflogedig ac wedi bod yn cael eu cyflogi gan yr un sefydliad ers 8.5 o flynyddoedd ar gyfartaledd. Roedd 68% o'r cyfranogwyr wedi bod yn yr un swydd yn yr un sefydliad ers dros 3 blynedd. Roedd ymatebwyr o USDAW a CWU wedi bod yn eu swyddi presennol ers 15 mlynedd ar gyfartaledd.

Ffigur 2.2: Cyfnod yn y swydd yn ôl Undeb



Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi teitl eu swydd a chafodd 366 o ymatebion eu codio wedyn i godau Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC). Y dosbarthiad mwyaf cyffredin oedd galwedigaethau Proffesiynol Cysylltiol a oedd yn cyfrif am 23% o'r sampl. Wrth gymharu'r data hwn â data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer Cymru, roedd 54% o sampl yr arolwg yn y tri chategori SOC uchaf o'i gymharu â 49% ledled Cymru. Efallai nad yw hyn yn cynrychioli swyddi ar draws cyflogwyr lle mae staff yn aelodau o Undebau; fodd bynnag, nid oes modd profi hyn o ystyried y diffyg gwybodaeth reoli a gasglwyd ar sectorau diwydiannol yr holl ddysgwyr sy'n cymryd rhan. Er gwaethaf ymdrechion i ehangu mynediad i'r arolwg, fel y disgrifir ym Mhennod 1.1, mae'n dal yn bosibl bod y rheini sy'n gweithio wrth ddesg yn eu swyddi, sy'n tueddu i fod angen cymwysterau uwch, yn fwy tebygol o ymateb i'r arolwg. Er mwyn asesu lefel swyddi ymhellach, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn rheolwyr neu'n goruchwyllo gweithwyr, a nododd 38% eu bod mewn swyddi o'r fath.


Ffigur 2.3: Dadansoddiad o swyddi yn ôl cod SOC o'i gymharu â chanlyniadau arolwg yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Ebrill 2024 i Fawrth 2025



O'i gymharu â'r arolwg WULF blaenorol a gynhaliwyd, roedd gan gyfran is o ddysgwyr radd israddedig neu gymhwyster uwch cyn cymryd rhan (59% o'i gymharu â 69%), ac roedd gan ganran uwch o unigolion gymwysterau Safon Uwch neu is.

Fodd bynnag, roedd cyfran y sampl dysgwyr WULF a oedd â chymhwyster lefel 3 neu uwch yn uwch na phoblogaeth oedran gweithio Cymru (78.5% o'i gymharu â 68.6%⁸). Mae unigolion sydd â chyrhaeddiad addysgol uwch yn llawer mwy tebygol o gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu ac felly efallai nad ydynt yn cynrychioli'r demograffeg a dargedir gan WULF.

Ffigur 2.4: Lefel cymhwyster uchaf cyn cymryd rhan mewn hyfforddiant WULF



Cwmpas N=632

Fodd bynnag, mae'r data'n awgrymu bod ymatebion gan undebau'n debygol o effeithio ar lefelau cymwysterau uwch, lle mae angen lefel benodol o addysg ar weithwyr i gyflawni eu swyddi.

⁸ <https://www.llyw.cymru/lefel-y-cymwysterau-uchaf-ddelir-gan-oedolion-o-oed-gweithio-2024.html>

Tabl 2.2: Lefel cymhwyster uchaf cyn cymryd rhan mewn hyfforddiant WULF yn ôl undeb


	Cymwysterau sy'n is na TGAU neu gymhwyster cyfatebol	TGAU neu Safon Uwch	Gradd israddedig neu gymhwyster uwch
NEU (N=39)	0%	8%	92%
BECTU (N=110)	1%	16%	83%
NAPO (N=11)	0%	27%	73%
FDA (N=48)	0%	29%	71%
PCS (N=27)	0%	33%	67%
UNISON (N=71)	0%	38%	62%
Unite (N=54)	0%	39%	61%
Community (n=51)	0%	45%	55%
GMB (N=27)	0%	56%	44%
POA (N=42)	0%	60%	40%
CWU (N=53)	8%	58%	34%
ASLEF (N=22)	9%	59%	32%
BFAWU (N=33)	15%	64%	21%
URTU (N=11)	18%	82%	0%

2.2 Ymgysylltiad Dysgwyr

Roedd ymatebwyr yn tueddu i gael mynediad at gyrsiau byrrach gyda 22% yn cwblhau cyrsiau hyd at awr o hyd a 46% yn cael mynediad at gyrsiau a oedd yn para hyd at ddiwrnod (6 awr). Dim ond 17% gymherodd ran mewn dysgu a barodd fwy na 12 awr.

Gofynnwyd i ddysgwyr a oedd wedi cymryd rhan mewn cyrsiau a oedd yn para mwy na diwrnod sut roeddent wedi cael gafael ar yr hyfforddiant. Roedd y rhan fwyaf yn fwyaf tebygol o fod wedi gwneud hynny ar-lein (47%).

Ffigur 2.5: A gynhaliwyd yr hyfforddiant...?




N=503

Er mwyn cymryd rhan yn yr hyfforddiant, cafodd 54% o ddysgwyr eu rhyddhau'n llawn gan eu cyflogwyr. Mae hyn i lawr o 61% yn arolwg 2023 ond yn dal yn gynnydd o'r 41% a nododd hyn yn 2021. Mae rhyddhau'n llawn yn cyfeirio at drefniant lle mae'r cyflogwr yn caniatáu'n ffurfiol i'r gweithiwr fynychu hyfforddiant yn ystod oriau gwaith, heb fynnu ei fod yn cyflawni unrhyw ddyletswyddau gwaith ar yr un pryd. Mae hyn fel arfer yn cynnwys amser o'r gwaith am dâl a chydnabyddiaeth bod yr hyfforddiant yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithiwr.

Yn y blynyddoedd ers y pandemig, mae dysgwyr wedi bod yn fwyfwy tebygol o fod wedi gweithio gyda chyflogwr i bennu eu hanghenion dysgu (39% yn 2022, 34% yn 2021 o'i gymharu â 70% yn 2020) a dim ond 16% o ddysgwyr ddywedodd eu bod wedi cael cymorth gan eu rheolwr llinell i benderfynu pa gwrs fyddai orau iddynt. Roedd dysgwyr hefyd yn llai tebygol o fod wedi cael cymorth gan Gynrychiolydd Dysgu Undebau (18% o'i gymharu â 26% yn 2022 a 27% yn 2021).


Ffigur 2.6: Fel rhan o'r broses o wneud cais am neu gymryd rhan yn WULF, a gawsoch chi unrhyw un o'r mathau hyn o gymorth?



Cwmpas N=424


Fodd bynnag, roedd dysgwyr hefyd yn llai tebygol o fod wedi penderfynu'n annibynnol a fyddai'r math hwn o hyfforddiant o fudd iddynt o'i gymharu â blwyddyn olaf cylch blaenorol y rhaglen (2023).

Ffigur 2.7: Pwy benderfynodd y byddai'r math yma o hyfforddiant o fudd i chi?



Wrth gymharu ymatebion i'r ddau gwestiwn hyn, mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu, pan oedd rheolwr llinell neu oruchwyliwr y dysgwr yn gwneud penderfyniad ynghylch y cwrs, nad oedd ffynonellau cymorth eraill yn cael eu nodi mor aml. Yn y grŵp hwn, cafodd 15% gymorth gan Gynrychiolydd Dysgu Undeb neu staff WULF, 37% gan eu rheolwr, a 15% gan gydweithwyr, a dywedodd 33% nad oeddent wedi cael unrhyw gymorth o gwbl. Mewn cymhariaeth, roedd dysgwyr a wnaeth y penderfyniad ar y cyd â'u rheolwr llinell yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cael cymorth gan eu rheolwr (51%) ac yn llai tebygol o ddweud nad oeddent wedi cael unrhyw gymorth (19%). Y rheini a wnaeth y penderfyniad ar y cyd â'u hundeb a nododd y lefelau uchaf o gefnogaeth gan undebau (73%) a'r gyfradd isaf o ddim cefnogaeth (3%). Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod cysylltiad rhwng cyfranogiad undebau yn y broses o wneud penderfyniad â chefnogaeth ehangach, tra gallai penderfyniadau sy'n cael eu harwain gan reolwyr fod yn fwy cyfyngedig o ran canllawiau ychwanegol. Nid yw'n syndod mai'r rhai a benderfynodd yn annibynnol fod y cwrs dysgu hwn yn addas iddynt oedd y lleiaf tebygol o gael gafael ar gymorth.


Ffigur 2.8: ‘Pwy benderfynodd y byddai’r math yma o hyfforddiant o fudd i chi?’ Wedi’i groesdabio gan ‘Fel rhan o’r broses o wneud cais am neu gymryd rhan yn WULF, a gawsoch chi unrhyw un o’r mathau hyn o gymorth?’



2.2.1 Cyfranogiad blaenorol mewn hyfforddiant


Roedd hanner yr ymatebwyr i’r arolwg (50%) wedi ymgysylltu â hyfforddiant yn ystod y 6 mis diwethaf cyn ymgysylltu â darpariaeth WULF, i lawr o 57% yn adroddiad rhaglen 2023, ac roedd 48% wedi cymryd rhan mewn cyfle dysgu gan undeb cyn yr hyfforddiant hwn.

Ffigur 2.9: Cyn gwneud [cwrs] gyda WULF, faint o amser sydd wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i chi ei gymryd rhan mewn rhyw fath o hyfforddiant?




Roedd dysgwyr a oedd wedi cymryd rhan mewn cyfle dysgu gydag undeb o'r blaen yn fwy tebygol o fod wedi cael hyfforddiant yn fwy diweddar.

Ffigur 2.10: 'Cyn gwneud [cwrn] gyda WULF, faint o amser sydd wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i chi gymryd rhan mewn rhyw fath o hyfforddiant? Wedi'i drawsdbio gan: 'Ydych chi wedi bod yn rhan o gyfle dysgu/hyfforddi gydag undeb o'r blaen?'



Roedd y nifer a oedd yn cymryd rhan mewn dysgu hefyd yn amrywio yn ôl grŵp oedran gyda dysgwyr hŷn yn llai tebygol o fod wedi ymgymryd â hyfforddiant yn ystod y 6 mis diwethaf. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ymchwil a grybwyllir ym Mhennod 2.1.1 sef bod cyfranogiad mewn dysgu oedolion yn tueddu i ostwng gydag oedran.


Ffigur 2.11: 'Cyn gwneud [cwrs] gyda WULF, faint o amser sydd wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i chi gymryd rhan mewn rhyw fath o hyfforddiant? Oedran cyfranogwyr wedi'i groesdabio



2.2.2 Dyheadau'r dysgwyr

Yn 2025, y rheswm a ddewiswyd amlaf dros ymgymryd â hyfforddiant WULF oedd 'dysgu sgil newydd sy'n gysylltiedig â fy swydd' (47%), i fyny o 37% yn 2023. Fe wnaeth hyn ddisodli 'syniadau, dulliau ac ysbrydoliaeth newydd' (44% yn 2025 a 52% yn 2023) fel yr ymateb mwyaf cyffredin. Roedd 'cefnogaeth i symud i yrfa newydd / dilyniant gyrfa' hefyd wedi cynyddu (29% o'i gymharu â 19%), tra dewisodd 31% o'r ymatebwyr opsiwn newydd a gyflwynwyd yn 2025, sef 'gwella fy rhagolygon gyrfa'. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu ffocws cryfach ar sgiliau sy'n gysylltiedig â swyddi a datblygu gyrfa, er y dylid bod yn ofalus wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau yn y categorïau ymateb.


Ffigur 2.12: Pa fudd oeddech chi'n gobeithio ei gael o'r hyfforddiant?



2.2.3 Hyfforddiant a gafwyd

Roedd dysgwyr yn cael amrywiaeth o hyfforddiant ond roedd y rhai mwyaf cyffredin yn ymwneud â sgiliau penodol i swydd neu Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (17%) a Sgiliau Chwilio am Waith (14%). Roedd llawer yn cael gafael yn aml ar ddysgu am iechyd meddwl ac iechyd corfforol.

Ffigur 2.13: Allwch chi gofio pa fathau o hyfforddiant rydych chi wedi'i gael drwy WULF? (aml-ymateb)



Cwmpas N=710

2.2.4 Dadansoddiad o'r ddarpariaeth Gymraeg

Derbyniodd mwyafrif helaeth y dysgwyr hyfforddiant yn Saesneg, gyda 5% o'r cyrsiau'n cael eu cyflwyno'n ddwyieithog, a dim ond 1% yn Gymraeg yn unig, gostyngiad o 10% ar y rhaglen flaenorol. Fodd bynnag, honnodd 96% o'r ymatebwyr eu bod yn hapus gyda rhaglenni'n cael eu cyflwyno yn Saesneg yn unig, a allai fod yn arwydd o alw isel am gyrsiau a ddarperir yn Gymraeg.


2.2.5 Myfyrdodau

Yn debyg i arolwg 2023, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan am ddefnyddioldeb yr hyfforddiant, gyda 68% yn dweud ei fod wedi bod yn ddefnyddiol iawn (o'i gymharu â 69% yn 2023).

Ar gyfer dysgwyr a oedd wedi dilyn cwrs hirach, roedd cyfran y rheini a oedd yn teimlo bod yr hyfforddiant yn 'ddefnyddiol iawn' 10 pwynt canran yn uwch ar gyfer y rheini a oedd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant wyneb yn wyneb o'i gymharu â fformatau o bell neu gyfunol (85%, a 75% yn y drefn honno)⁹.

Pan ofynnwyd i'w cydweithwyr a fyddent yn argymhell cymryd rhan yn yr hyfforddiant, dywedodd 43% y byddent yn gwneud hynny, ac roedd 60% eisoes wedi gwneud hynny.

Ffigur 2.14: Pa mor ddefnyddiol oedd yr hyfforddiant a gawsoch?



Cwmpas N=442

“Roedd yr hyfforddiant yn gysylltiedig â gwerthoedd craidd a strwythur fy sefydliad. Felly roedd yn berthnasol iawn.” **Dysgwr**

Nid yw'r dadansoddiad hyn yn cynnwys dysgwyr a oedd yn dilyn cyrsiau llai na diwrnod o hyd gan na ofynnwyd iddynt am y dull y darparwyd hyfforddiant.

“Aeth y cwrs i gryn fanylder, gan ymdrin ag agweddau allweddol ar fy nisgyblaeth a dysgu sgiliau newydd a ffyrdd newydd o feddwl i mi. Fe wnaeth fy ngalluogi i ennill cymhwyster yn fy mhwnc.” **Dysgwr**

2.3 Effaith


Er bod 11% o’r ymatebwyr wedi nodi y byddent wedi cael yr hyfforddiant roeddent wedi cymryd rhan ynddo drwy ddarparwr arall, ni fyddai’r rhan fwyaf o’r ymatebwyr (51%) wedi cael unrhyw hyfforddiant neu roeddent yn ansicr a fyddent wedi gwneud hynny (21%). Mae hyn yn awgrymu bod hyfforddiant WULF yn gyfle gwerthfawr i weithwyr gael gafael ar hyfforddiant perthnasol.

2.3.1 Effaith ar berfformiad gwaith

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg i ba raddau, ac ym mha ffyrdd, y mae’r hyfforddiant a gawsant drwy WULF wedi bod o fudd iddynt. Diwygiwyd y cwestiwn hwn ar gyfer arolwg 2025 mewn ymateb i adborth ynghylch hyd yr arolwg blaenorol ac i ystyried yr effeithiau tebygol ar ddysgwyr sy’n dilyn cyrsiau byrrach. Ar gyfer y rownd hon o raglenni, roedd y manteision hyn wedi’u rhannu rhwng y sgiliau meddalach ehangach a ofynnwyd i bob dysgwr a’r canlyniadau cysylltiedig â’u swydd a ofynnwyd i’r rheini a oedd wedi cymryd rhan mewn cyrsiau a oedd yn hirach na diwrnod yn unig.

Ar gyfer sgiliau meddalach, dywedodd y rhan fwyaf o ddysgwyr eu bod wedi profi newidiadau cadarnhaol, i ryw raddau o leiaf. Yr effaith a nodwyd amlaf oedd cynyddu eu hunanhyder (90%).

Ffigur 2.15: I ba raddau mae'r hyfforddiant a gawsoch drwy WULF wedi arwain at...? (Sgiliau meddalach, pob ymatebydd)




Cwmpas: N=430

“Ennill hyder, sylweddoli fy mod i’n gallu gwneud pethau os ydw i’n rhoi fy meddwl ar y peth ac yn rhoi cynnig arni.” **Dysgwyr**


Roedd dysgwyr a oedd yn gweithio gyda’u hundeb i benderfynu pa hyfforddiant oedd yn iawn iddynt yn fwy tebygol o nodi canlyniadau cadarnhaol naill ai i raddau helaeth neu i ryw raddau. Yn yr un modd, nododd y rhai y dewiswyd eu cwrs gan staff undeb eu bod wedi elwa’n fawr ar draws pob maes er y dylid dehongli’r canfyddiad hwn yn ofalus oherwydd y nifer isel o ymatebwyr yn y categori hwn. Dysgwyr yr oedd eu rheolwr llinell neu eu goruchwyliwr wedi penderfynu y byddai’r hyfforddiant hwn yn fuddiol iddynt heb ymgynghori â nhw oedd y lleiaf tebygol o ddweud ei fod wedi arwain at unrhyw un o’r canlyniadau hyn.

Ffigur 2.16: 'I ba raddau mae'r hyfforddiant a gawsoch drwy WULF wedi arwain at...?' (Sgiliau meddalach) yn ôl 'Pwy benderfynodd y byddai'r math yma o hyfforddiant o fudd i chi?'



O ran perfformiad yn y gwaith, dysgwyr a oedd wedi cymryd rhan mewn cyrsiau a oedd yn para mwy nag 1 diwrnod oedd fwyaf tebygol o nodi bod y dysgu yr oeddent wedi'i wneud wedi golygu eu bod yn gallu cefnogi eu cydweithwyr yn well (85%).

Ffigur 2.17: I ba raddau mae'r hyfforddiant a gawsoch drwy WULF wedi arwain at...? (Sgiliau cysylltiedig â gwaith, dysgwyr ar gyrsiau hirach yn unig)



N=169


“Rhoddodd yr hyder i mi fwrw ymlaen â’m hyfforddiant i fod yn gwnselydd a datblygu fy ngyrfa ym maes iechyd meddwl.” **Dysgwr**

“Oherwydd fy mod wedi ennill sgiliau a thechnegau newydd ac wedi magu mwy o hyder yn y meysydd hynny yr astudiais ynddynt. Roedd tystysgrif ynghlwm wrth un cwrs felly roedd hwn yn dystiolaeth dda ar gyfer cyflogwr yn y dyfodol.” **Dysgwr**

“Yn aml, rydych chi’n diflasu ar ennill cymwysterau newydd “Rydw i’n rhy hen ar gyfer pethau newydd” yn rhywbeth a ddywedir yn aml. Rwyf bellach wedi dechrau sefydlu busnes newydd ar sail fy hyfforddiant.” **Dysgwr**

Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod yr hyfforddiant wedi gwella eu gwaith i ryw raddau o leiaf, gyda 30% yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi gwella eu perfformiad yn y gwaith yn sylweddol yn holl agweddau eu swydd neu rai agweddau ohonni. Yn fwyaf nodedig, mae cyfran y dysgwyr a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi cael effaith sylweddol ym mhob agwedd ar eu swydd wedi mwy na dyblu o’i gymharu â’r ddwy rownd arolygu flaenorol (9% o’i gymharu â 4%).


Ffigur 2.18: Ydy'r hyfforddiant rydych chi wedi'i gael wedi gwella eich perfformiad yn y gwaith?



Cwmpas N=371

O'u dadansoddi yn ôl undeb, dysgwyr o BFAWU, Community a NAPO oedd fwyaf tebygol o nodi gwelliannau sylweddol ym mhob agwedd ar eu swydd neu agweddau penodol arni.


Ffigur 2.19: effaith ar berfformiad gwaith yn ôl undeb



Nid yw'n cynnwys ymatebion 'ddim yn gwybod' ac undebau sydd â llai na 10 ymateb.

Gofynnwyd i ddysgwyr a gymerodd ran mewn cyrsiau a oedd yn para mwy na diwrnod a oedd gwella eu perfformiad yn y gwaith wedi arwain at ragor o fanteision. Y canlyniadau a adroddwyd amlaf oedd cydnabyddiaeth gan eu rheolwr llinell (39%) a chan gymheiriaid (37%). Dywedodd 14% o'r ymatebwyr fod yr hyfforddiant wedi eu helpu i gael swydd newydd. O'r rhain, dywedodd 76% (24 allan o 33) eu bod hefyd wedi cael codiad cyflog. O'u cyfuno â'r rheini a ddywedodd eu bod wedi cael codiad cyflog neu fath arall o dâl, roedd hyn yn cyfateb i 11% o'r holl ddysgwyr a ymatebodd i'r cwestiwn.

Ffigur 2.20: At ba rai o'r canlynol (os o gwbl) y gwnaeth y newid hwnnw mewn perfformiad arwain atynt?



Cwmpas N=234

Ymysg gweithwyr hunangyflogedig a llawrydd, mae'r hyfforddiant wedi helpu 60% (18/30) o'r ymatebwyr i sicrhau mwy o waith, sy'n cyd-fynd â'r tueddiadau a welwyd mewn arolygon blaenorol.

2.3.2 Cadw staff

Mae'n gadarnhaol nodi bod 48% (32/67) o ddysgwyr wedi dweud bod yr hyfforddiant wedi cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn aros gyda'u cyflogwr presennol. Pan ddywedodd dysgwyr nad oedd yr hyfforddiant wedi effeithio ar hyn, y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd y byddent wedi aros gyda'u cyflogwr beth bynnag (51%, 18/35).

2.3.3 Agweddau tuag at hyfforddiant/dysgu

Pan ofynnwyd iddynt a oedd yr hyfforddiant wedi newid eu hagwedd tuag at hyfforddiant, dywedodd y mwyafrif eu bod bob amser wedi mwynhau hyfforddiant (52%, 223/431). Fodd bynnag, mae cyfran y dysgwyr sy'n dweud ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hagwedd wedi cynyddu o'i gymharu â chylchoedd arolwg blaenorol.


Tabl 2.3: A yw eich agwedd at ddysgu / hyfforddi wedi newid o ganlyniad i'r gefnogaeth a gawsoch?

	2020 Arolwg	2021 Arolwg	2022 Arolwg	2025 Arolwg
Naddo, rydw i bob amser wedi mwynhau hyfforddiant	63%	59%	59%	52%
Do, mae wedi cael effaith gadarnhaol	27%	30%	27%	35%
Do, mae wedi cael effaith negyddol	1%	2%	1%	1%
Naddo, dim effaith o gwbl	10%	9%	13%	12%

Cwmpas: 2020 n=519, 2021 n=674, 2022 n=497, 2025 n=431

Gwelwyd yr effaith hon yn fwyaf cyffredin ymysg dysgwyr 30-54 oed ar ganol eu gyrfa, gan fod 41% o'r is-grŵp hwn wedi nodi bod yr hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hagwedd at ddysgu.

Ffigur 2.21: Y gyfran o bob carfan oedran a nododd effaith gadarnhaol ar eu hagweddau at ddysgu




Yn gyffredinol, dywedodd 96% o ddysgwyr y byddent yn argymhell cymryd rhan mewn dysgu neu hyfforddiant i eraill, gyda 36% yn dweud eu bod wedi gwneud hynny'n barod.

2.3.4 Symud ymlaen i hyfforddiant ychwanegol

Adeg yr arolwg, roedd 78% o ddysgwyr naill ai eisoes wedi symud ymlaen i ddysgu pellach (29%) neu roeddent yn debygol o wneud hynny o fewn y 12 mis nesaf (49%).


Ffigur 2.22: A chithau wedi cwblhau'r cwrs erbyn hyn, pa mor debygol ydych chi o symud ymlaen i ddysgu pellach?



Cwmpas N=332

Dyweddodd 87% o'r cyfranogwyr fod cymryd rhan yn y cwrs a ariannwyd gan WULF wedi eu hannog i barhau â dysgu pellach i ryw raddau neu i raddau helaeth, gan ddangos effeithiolrwydd y rhaglen wrth gefnogi ymgysylltiad pellach ag addysg i oedolion.

Ffigur 2.23: I ba raddau wnaeth cymryd rhan yn y cwrs a ariennir gan WULF eich annog i symud ymlaen i ddysgu pellach?



Cwmpas N=332

“Rwy’n synnu nad oes mwy o brosiectau fel hyn. Mae dysgu’n hanfodol i bob un ohonom, mae’n ein helpu i ganolbwyntio ar bethau a chwrdd â phobl newydd, gan ennill sgiliau a hyder. Mae’n ein codi allan o’n swigod am eiliad ac yn rhoi gwell golwg i ni. Mae angen mwy o hyn.” **Dysgwr**

“Ar ôl gallu cael mynediad at amryw o gyrsiau, rwy’n synnu pa mor gymwynasgar a pharod i helpu yw WULF.” **Dysgwr**

Dyma rai o’r cyrsiau y mae dysgwyr yn symud ymlaen iddynt, ar ôl eu hyfforddiant WULF, ond heb fod yn gyfyngedig i hyn: Sgiliau digidol a data (29%), Hyfforddi a Mentora (13%) ac Iechyd Meddwl (7%). Dywedodd tua 30% o’r ymatebwyr (30 allan o 100 a roddodd enghraifft o gwrs roeddent wedi’i fynychu ar ôl hyfforddiant WULF) fod cysylltiad uniongyrchol rhwng yr hyfforddiant maent yn parhau ag ef, ag un a gyrchwyd drwy ddarpariaeth WULF.

“Fe wnes i’r cwrs Excel sylfaenol i ddechrau ac yna gwneud y lefel ganolradd ac mae wedi bod o gymorth mawr i mi gyda fy swydd” **Dysgwr**


“Fe wnes i adael yr ysgol heb ddim byd gan nad oedd gen i ddim hyder ynof i fy hun. Rydw i wedi mynd yn fy mlaen i faethu ac i ddilyn cyrsiau ym maes iechyd meddwl a chysiau eraill i helpu plant ifanc ac oedolion ifanc i gredu ynddyn nhw eu hunain.” **Dysgwr**

2.3.5 Cyfranogiad undebau a chefnogaeth ehangach

Roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr a ymatebodd i'r arolwg eisoes yn aelodau o undeb (71%, 570/805). O'r 206 nad oeddent yn aelodau, daeth 6% yn aelodau ar ôl cymryd rhan mewn cyfle dysgu WULF.

Fel rhan o gymryd rhan yn y cyfle dysgu, cafodd 39% (164/424) gymorth arall gan y rhaglen. Y math mwyaf cyffredin oedd gwybodaeth am eu hawliau a'u cyfrifoldebau, ond roedd WULF hefyd yn chwarae rhan yn y gwaith o helpu i gyfeirio dysgwyr at ddarpariaeth cyflogadwyedd arall Llywodraeth Cymru.

Ffigur 2.24: A gawsoch chi unrhyw rai o'r mathau canlynol o gymorth drwy'r rhaglen hefyd?



Cysylltu â



0330 122 8658



wavehill@wavehill.com



wavehill.com

Dilynwch ni ar ein



[@wavehilltweets](https://twitter.com/wavehilltweets)



[wavehill](https://www.linkedin.com/company/wavehill)